

1

Cefndir

Ym mis Tachwedd 2021, llofruddiodd 'John' June yn ei chartref ei hun. Cyn y digwyddiad nid oedd unrhyw berthynas rhwng June a John. Cafwyd y pwynt cyswllt cyntaf ar adeg y digwyddiad. Ar y pryd roedd John yn fyfyrwr mewn Prifysgol yng Nghymru ac o dan ofal Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac roedd ganddo gysylltiad blaenorol â Heddlu De Cymru.

Mae'r Adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr asiantaethau a ddaeth i gysylltiad â John gan nad oedd June yn hysbys i'r gwasanaethau cyn ei llofruddiaeth. Mae'r amserlen wedi'i hymestyn i gwmpasu'r cyfnod yn dilyn y digwyddiad gan fod meysydd dysgu wedi'u nodi yn ystod yr adolygiad. Gan mai lladdiad iechyd meddwl oedd hwn, comisiynwyd adolygiad gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf ar 9/3/2023 gan ddefnyddio proses y cynllun peilot Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.



**Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl
SUSR 01/2022**

2

Thema Dysgu 1: Cyfathrebu

Roedd cyfyngiadau ar lif gwybodaeth rhwng yr holl asiantaethau, a rhwng asiantaethau a John a'i deulu. Roedd y broses o rannu gwybodaeth yn gyfyngedig gan arfer a phrosesau ar y pryd. Mewn achosion eraill, roedd problemau gyda rhannu gwybodaeth yn seiliedig ar gamddealltwriaeth ynghylch pryd mae modd rhannu gwybodaeth, a thybiaethau ynghylch ble mae gwybodaeth yn mynd a faint o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan asiantaethau partner. Pan ddaeth yr holl ddarnau o'r jig-so gwybodaeth at ei gilydd, mae darlun gwahanol yn dod i'r amlwg o anghenion John a fyddai efallai wedi ennyn mwy o bryder a chymorth wedi'i dargedu'n well.

Argymhellir bod pob asiantaeth yn adolygu ac yn diwygio eu trefniadau rhannu gwybodaeth i wella cyfathrebu.

7

Thema Dysgu 6: Rheoli ôl-ymyrraeth

Er nad oedd y digwyddiadau a'r profiadau yn syth ar ôl y lladdiad yn rhan o'r cylch gorchwyl, rhannwyd y rhain ag ymarferwyr i anrhydeddu adroddiadau'r teuluoedd a'r gymuned ac i hwyluso dysgu y tu allan i'r amserlen ddynodedig.

Ni chynhaliwyd Grŵp Ymateb Uniongyrchol (IRG) ar gyfer y digwyddiad yma ac, o'r herwydd, nid oedd unrhyw ymateb aml-asiantaeth i reoli byggythiad, risg a niwed mewn perthynas â grŵp o unigolion. Gallai llawer o'r anawsterau a'r trallod fod wedi'u lleihau neu eu rheoli gan ddefnyddio'r broses Grŵp Ymateb Uniongyrchol.

Argymhellir y dylai'r Bwrdd Diogelu adolygu'r "Protocol ar gyfer Ymateb ar Unwaith i Ddigwyddiadau Critigol" i sicrhau dealltwriaeth gyson ar draws partneriaid amlasiantaethol o'r math o ddigwyddiad y dylid gweithredu'r protocol ar ei gyfer, pwrpas y Grŵp Ymateb Uniongyrchol a chytundeb ar gofnodi penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal grŵp o'r fath.

Ar ôl cytuno, dylid atgoffa pob asiantaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r protocol yma.



3

Thema Dysgu 2: Defnyddio prosesau statudol i gynorthwyo gofal

Collwyd cyfleoedd i ddefnyddio prosesau statudol a safonol i gynorthwyo gofal. Roedd cyfyngiadau sylweddol hefyd ar roi gofal ar sail tystiolaeth.

Nid oedd prosesau'r Garfan Iechyd Meddwl Cymunedol yn caniatáu ar gyfer darparu gofal a thriniaeth mewn modd amserol na chadarn.

Argymhellir y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddarau polisi MH36 2018 Mesurau Iechyd Meddwl Rhannau 2 a 3 Cynllunio Gofal a Thriniaeth ac y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddarau polisi Gweithredol Carfanau Iechyd Meddwl Cymunedol.

6

Thema Dysgu 5: Hyder mewn gwasanaethau

I bobl sy'n profi trallod ac aflonyddwch i'w cyflwr meddwl, ond yn enwedig ar gyfer pobl ifainc sy'n profi pwl cyntaf o seicosis, mae'n hanfodol teimlo bod modd ymddiried mewn gwasanaethau a bod gwasanaethau o'r fath wedi'u hyfforddi'n dda, yn fedrus ac yn gallu cynnig gobaiith.

Argymhellir bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried eu hegwyddorion cydgynhyrchu. Gallai hyn sicrhau bod gwasanaethau, ymyriadau a chyfathrebu'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r rhai sy'n eu defnyddio. Mae modd i hyn, ynghyd â mynediad cynyddol at ofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac adrodd ar welliannau, gynyddu hyder ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau.

Dylai cynyddu mynediad at ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod yn flaenoriaeth allweddol a dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio ei

5

Thema Dysgu 4: Gweithio ar draws ardaloedd

Nid oes mecanwaith wedi'i nodi ar gyfer rhannu gwybodaeth na darparu gofal a rennir pan fydd person yn symud i ardal bwrdd iechyd arall dros dro.

Argymhellir bod protocol yn cael ei ddatblygu rhwng Byrddau Iechyd i hwyluso rhannu gwybodaeth a pharhad gofal pan fydd person yn symud i ardal Bwrdd Iechyd arall dros dro.

4

Thema Dysgu 3: Darparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys cyfranogiad pobl arwyddocaol eraill

Mae Canllawiau NICE yn nodi'r angen i gynnig ymyriad teuluol fel ymyriad rheng flaen ochr yn ochr â Therapi Ymddygiad Gwybyddol un-i-un. Ni ddigwyddodd hyn yn y sefyllfa yma.

Argymhellir bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei allu i ddarparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gyson â Chanllawiau NICE ar gyfer pob claf a theulu priodol a datblygu cynllun aweithredu i unioni unrhyw ddiffyiaion.